

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol San Siôr

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae Ysgol San Siôr yn gymuned hapus a gofalgar. Mae'r pennaeth wedi rhannu gweledigaeth glir yn seiliedig ar 'Calon San Siôr' ac mae'n gweithio'n bwrpasol gyda staff, llywodraethwyr a disgyblion i sicrhau amgylchedd diogel a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae disgyblion yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol yn gofalu amdanynt ac y gallant droi atynt pan fyddant yn wynebu heriau neu'n cael anawsterau. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn mynychu'n rheolaidd, yn ymddwyn yn dda ac yn gweithio a chwarae gyda'i gilydd yn hapus.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn bodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru, yn fras, a chaiff ei ategu gan werthoedd ac ethos cryf yr ysgol. Mae athrawon a staff cymorth yn cynllunio profiadau dysgu difyr sy'n helpu sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn gwneud cynnydd addas â'u medrau yn ystod gwersi a thros gyfnod. Mae ystafelloedd dosbarth a gofodau awyr agored yn amgylcheddau dysgu cynhyrchiol a gweithgar. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda yn ystod gwersi ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn bwrpasol; fodd bynnag, nid yw athrawon yn herio pob un o'r disgyblion yn gyson i ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol yn ddigon da.

Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd addas. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau llythrennedd Saesneg a'u medrau digidol ac yn defnyddio'r rhain yn dda i gefnogi eu dysgu mewn pynciau eraill. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau rhifedd, mae cyfleoedd i gymhwyso'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn eu medrau Cymraeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac ystyriol, sy'n sicrhau bod gan yr ysgol gyfeiriad strategol clir. Caiff ei gefnogi'n dda gan dîm ymrwymedig o staff ymroddgar a gofalgar. Mae prosesau gwerthuso yn nodi meysydd i'w gwella yn gywir, er enghraifft yr angen i athrawon roi adborth mwy penodol i ddisgyblion i'w helpu i wella'u gwaith.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 3 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Sicrhau bod addysgu yn darparu her briodol yn gyson i bob un o'r disgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol effeithiol**

**A2 Sicrhau bod adborth athrawon yn cynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith yn gyson**

**A3 Darparu ymagwedd ysgol gyfan systematig at ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/12/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.